**WHC (2025) 049**

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

**Statws:** Cydymffurfio

**Categori:** Polisi

## Teitl: Polisi Teithio i Gleifion

**Dyddiad dod i ben:** Dim dyddiad dod i ben.

**I'w weithredu gan:** Holl fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd y GIG

**I'w weithredu erbyn:** Ar unwaith

**Anfonwyd gan:** Lesley Law
Pennaeth Gofal wedi'i Gynllunio
Cyflenwi Gwasanaethau a Pherfformiad y GIG
Y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar
Llywodraeth Cymru.

**Enwau cyswllt yn Llywodraeth Cymru:**
Lesley Law, Lesley.Law@llyw.cymru

**Dogfennau amgaeedig:**

- Llythyr gan Lesley Law

# Datblygu a gweithredu'r Polisi Teithio i Gleifion

Prif Weithredwyr Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG

19 Rhagfyr 2025

Annwyl Gydweithwyr,

Cyhoeddir y cylchlythyr iechyd hwn i roi gwybod i fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd am y gofyniad ar gyfer Polisi Teithio i Cleifion wedi'i ddiweddaru, ynghyd â gwybodaeth ategol i'r cyhoedd i'w galluogi i gael mynediad at wasanaethau yn unol â'u hanghenion unigol.

**Y rhesymeg**

1. Canllawiau Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth Ebrill 2025

   Cyhoeddwyd y Canllawiau Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth, sydd wedi eu hadnewyddu, ym mis Ebrill 2025. Er nad yw'r egwyddorion sylfaenol wedi newid, ychwanegwyd rhai elfennau a chryfhawyd rhai eraill i wella sut yr ydym yn gweithio mewn partneriaeth ac yn cyfathrebu â'r cyhoedd. Mae'r elfennau hyn yn cynnwys:

   - Gwella cyfathrebu â chleifion i'w galluogi i gael gwell dealltwriaeth o'u rôl a'u cyfrifoldebau yn y cytundeb Cleifion-GIG wrth gael mynediad at ofal a gynlluniwyd, gan gynnwys pwysigrwydd mynychu apwyntiadau. Gall hyn gynnwys teithio yn bellach i gael gofal.
   - Cymorth i unigolion agored i niwed.

2. Trawsnewid Gofal a Gynlluniwyd

   Mae modelau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau yn dod i'r amlwg mewn ymateb i'r angen i foderneiddio a thrawsnewid gofal a gynlluniwyd yng Nghymru. Wrth symud ymlaen, bydd mwy o wasanaethau'n cael eu darparu yn rhanbarthol. Hefyd bydd darparwyr allanol yn aml yn cael eu comisiynu i ddarparu gofal ar ran y GIG er mwyn helpu i reoli'r galw a'r oedi mewn gofal.

**Cymorth i gleifion fynychu apwyntiadau**

Cydnabyddir bod rhai pobl yn wynebu heriau wrth fynychu eu hapwyntiadau. Efallai y bydd angen cymorth ychwanegol ar y rheini sy'n byw gyda bregusrwydd neu anabledd i'w helpu i fynychu apwyntiadau ysbyty, a hefyd bod cysylltiadau trafnidiaeth yn debygol o fod yn gyfyngedig i bobl sy'n byw yng nghefn gwlad. Drwy helpu pobl sydd angen cymorth i fynychu eu hapwyntiadau, gellir cyfrannu at brofiad cadarnhaol i'r claf a gwella canlyniadau iechyd trwy ddarparu mynediad amserol at ofal. Bydd defnyddio dulliau archebu sy'n canolbwyntio ar y person, a darparu gwybodaeth a chymorth i deithio i apwyntiadau, yn helpu i leihau cyfraddau DNA a CNA, ac felly'n cyfrannu at wneud y mwyaf o gapasiti'r GIG sy'n werthfawr ond yn gyfyngedig.

**Cefnogaeth i fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd i'w helpu i gydymffurfio â gofynion Polisi**

Mae pecyn cymorth cynhwysfawr ar gyfer y Polisi Teithio i Gleifion wedi'i gyd-gynhyrchu gan Bolisi Gofal a Gynlluniwyd Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd y GIG. Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys y canlynol:

- Templed polisi teithio safonol i gleifion y gellir ei addasu i'w ddefnyddio'n lleol.
- Awgrymiadau ar gyfer gwybodaeth i'r cyhoedd a negeseuon cyson i'w cynnwys ar dudalennau glanio gofal a gynlluniwyd i reoli disgwyliadau cleifion o ran yr angen i deithio i gael gofal gan ddarparwyr rhanbarthol neu allanol a gomisiynwyd, a pha gymorth sydd ar gael.
- Dolenni at adnoddau perthnasol e.e., tudalennau glanio Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, cludo cleifion nad ydynt yn achosion argyfwng.

Er mwyn sicrhau bod pob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd yn cydymffurfio â gofynion polisi, disgwylir y canlynol:

Rhaid i bob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd:

- Gael Polisi Teithio i Gleifion sydd wedi'i ddiweddaru yn unol â gofynion polisi erbyn mis Mawrth 2026.
- Sicrhau bod y Polisi Teithio i Gleifion yn cael ei gyfathrebu, a'i fod ar gael i gleifion ar eu tudalennau glanio.
- Sicrhau bod cleifion yn cael yr wybodaeth berthnasol ynglŷn â'r angen posibl i deithio i apwyntiadau, a sut y gallant gael cymorth i deithio. Dylid darparu hyn ar

lafar wrth drefnu apwyntiadau yn ogystal â thrwy lythyrau cadarnhau atgyfeiriadau ac apwyntiadau a anfonir at gleifion, yn ogystal â fformatau digidol eraill a fformatau nad ydynt yn ddigidol.

Diolch ichi ymlaen llaw am eich cymorth.

Yn gywir,

Lesley Law

Pennaeth Gofal wedi'i Gynllunio

Cyflenwi Gwasanaethau a Pherfformiad

Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Llywodraeth Cymru

Copïau at:

Jacqueline Totterdell, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru
Nick Wood Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru
Jeremy Griffiths, Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Llywodraeth Cymru
Andrew Sallows, Cyfarwyddwr Cenedlaethol - Gofal wedi'i Gynllunio, Perfformiad a Gwella'r GIG
Philip Barry, Cyfarwyddwr Gwella Perfformiad Gweithredol, Perfformiad a Gwella’r GIG
Liz Davies, Arweinydd Polisi Gofal a Gynlluniwyd, Perfformiad a Gwella'r GIG